Mis Plannu a Rhannu

# Canllaw Cyflym i Drefnu Digwyddiadau Tyfu Cymunedol



Mae Plannu a Rhannu yn fis sy'n rhoi cyfle i chi ddod at ei gilydd yn y gymuned a chymryd rhan mewn gweithgareddau garddio. Bydd cyfle i ddysgu sut i greu bocsys perlysiau ar gyfer y silff ffenestr neu i gael gwybod am bryfed peillio, ac mae llond gwlad o adnoddau am ddim ar gael i'w lawrlwytho. Waeth beth fo'ch profiad, waeth beth fo maint eich gardd, gall pawb fynd ati i hau, i dyfu ac i rannu.

Gall yr adnodd hwn helpu unrhyw un sy'n trefnu digwyddiad cymunedol am y tro cyntaf neu sy'n awyddus i wella'r hyn mae'n ei wneud.

## Awgrymiadau

1. **Beth ydw i eisiau ei gyflawni?** Cynlluniwch beth fydd eich cynnyrch terfynol a gweithio am yn ôl. Os ydych yn bwriadu cael pawb i dyfu blodyn haul erbyn diwedd yr haf, cynlluniwch y camau am yn ôl. Bydd hyn yn helpu gyda'r cam nesaf hefyd.

2. **Pryd ydw i eisiau cynnal y digwyddiad?** Drwy ystyried pryd y gall y rhan fwyaf o bobl ymuno byddwch yn sicrhau bod eich digwyddiad yn pontio'r cenedlaethau. Allwch chi ei gynnal ar y penwythnos pan na fydd pobl yn gweithio neu yn yr ysgol? Hoffech chi wahodd pobl o'r gymuned neu a yw'n ddigwyddiad ar gyfer grŵp sefydledig fel clwb ieuenctid neu grŵp ar ôl ysgol?

3. **A oes rhaid cael caniatâd?** Os ydych chi eisiau cau ffordd er mwyn cynnal digwyddiad heb geir ar stryd breswyl mewn dinas neu yng nghanol y pentref, bydd rhaid i chi gael caniatâd yr awdurdod lleol. Codir tâl bychan am hyn fel arfer, ond ni chodir tâl ar gyfer digwyddiadau fel y Jiwbili a'r Coroni. Ydych chi'n defnyddio canolfan gymunedol neu neuadd bentref? Cofiwch gadarnhau'r bod y lle ar gael.

4. **A ddylwn i greu tîm?** Gall cynnal digwyddiad llwyddiannus olygu llawer o waith trefnu. Gallwch rannu'r baich drwy greu tîm o wirfoddolwyr neu gydweithwyr. Efallai eich bod am gynnal gweithgaredd fel garddio, ond efallai nad chi yw'r garddwr mwyaf profiadol. Gallech ofyn i berchennog rhandir lleol ddod i helpu.

5. **Sut i gadw pobl yn ddiogel?** Os byddwch yn cynnal digwyddiad, chi sy'n gyfrifol am gadw pobl yn ddiogel, ond nid oes angen i hyn godi ofn arnoch chi. Yn y rhan fwyaf o achosion, y cyfan fydd angen i chi ei wneud yw ystyried yn realistig beth allai fynd o'i le, ac effaith hynny ar y rhai sy'n bresennol a'r hyn y bydd angen ei wneud er mwyn atal hynny. Mae'n werth cynnal asesiad risg a chael cynllun ar gyfer y diwrnod, yn ogystal â pharu oedolion a phobl fwy profiadol â phlant iau neu rai sy'n cael ei chael hi'n anodd ymestyn neu balu.

6. **A oes angen i mi gael yswiriant?** Dylai eich yswiriant cyfredol fod yn iawn os byddwch yn cynnal digwyddiad fel rhan o grŵp sefydledig, ond dylech wirio hyn. Gallech hefyd fod yn iawn os byddwch yn llogi lle, ond eto cofiwch wirio hynny. Nid oes unrhyw gyfraith sy'n dweud bod yn rhaid i chi brynu yswiriant ar gyfer digwyddiad cymunedol, ond efallai yr hoffech sicrhau eich bod wedi'ch yswirio rhag ofn i rywbeth fynd o'i le.

7. **Sut y gallaf dalu fy nghostau?** Bydd costau'n gysylltiedig â chynnal digwyddiad ymarferol fel sesiwn dysgu sut i blannu perlysiau, drwy brynu potiau, hadau a chompost. Bydd angen ffyrc bach, menyg a labeli arnoch chi hefyd. Gallech godi tâl mynediad bach i dalu am yr hadau a'r compost. Fodd bynnag, ni chodir tâl mynediad fel arfer ar y rhai sydd fwyaf mewn angen. Defnyddiwch focsys wyau wedi'u hailgylchu neu roliau papur tŷ bach i blannu eginblanhigion a gofynnwch i wirfoddolwyr ddod ag offer. Neu chwiliwch am y grantiau lleol sydd ar gael gan eich cyngor plwyf neu gyngor lleol, neu gallech godi arian os bydd gennych amser.

8. **Sut i roi gwybod i bobl?** Gallwch lawrlwytho'r pecyn Mis Plannu a Rhannu i gael posteri i'w personoli a'u rhoi mewn ffenestri ac ar hysbysfyrddau. Ceir sampl o negeseuon i'w defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol a thempled ar gyfer datganiad i'r wasg y gallwch ei anfon at adran newyddion eich papur lleol, gorsaf radio neu orsaf deledu.

9. **Rhywbeth i fynd adref?** Cofiwch feddwl am rywbeth y gallwch ei roi i bobl fynd adref gyda nhw – a fydd pawb yn cael potyn bach gyda hadau wedi'u plannu, neu a fyddwch yn rhoi rysáit i gydfynd â'r hyn maen nhw wedi helpu i'w blannu? Hoffech chi wahodd pobl i ddigwyddiad arall?



## Ysgogi sgwrs ac archwilio profiadau synhwyraidd.

Gallwch gynnal digwyddiad i rannu eich syniadau garddio ac i ychwanegu at y sgiliau a ddysgwyd neu i goginio pryd i ddathlu ac i fwyta'r hyn a dyfwyd.

Ceisiwch gasglu amrywiaeth o berlysiau i'w lluosogi ac yna dewch yn ôl at eich gilydd i goginio rhywbeth gyda nhw a/neu i rannu atgofion am y perlysiau hynny.



## Ynglŷn â'r adnodd hwn

Hoffech chi archwilio mwy? Rhowch gynnig ar y gweithgareddau a'r adnoddau hyn:
**fflgettogethers.org/get-involved/plant-and-share-toolkit/**